Cyllid & Tollau EM

# Cais i dalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 3 gwirfoddol

## Ynglŷn â'r nodiadau hyn

Bydd y nodiadau hyn yn eich helpu i benderfynu a ydych am dalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 3 gwirfoddol. Darllenwch y nodiadau hyn cyn i chi lenwi'r ffurflen gais ar dudalennau 3 a 4.

## Pam talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol gwirfoddol?

Gallai bylchau yn eich cofnod cyfraniadau Yswiriant Gwladol ostwng swm Pensiwn y Wladwriaeth a gewch wrth gyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Gellir talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 3 gwirfoddol gan bobl nad ydynt wedi talu digon drwy eu cyflogaeth, neu gan y rheiny nad ydynt yn agored i dalu unrhyw ddosbarth arall o gyfraniadau Yswiriant Gwladol. Mae'r cyfraniadau'n cyfrif tuag at Bensiwn y Wladwriaeth.

Mae rhagor o wybodaeth am Yswiriant Gwladol Dosbarth 3 gwirfoddol a'r cyfraddau presennol ar gael yn www.gov.uk/voluntary-national-insurance-contributions

Gallwch dalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 3 gwirfoddol os yw'r canlynol yn wir:

- rydych dros 16 oed
- nid ydych yn gweithio
- nid ydych yn agored i dalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 1 neu Ddosbarth 2 fel person hunangyflogedig
- rydych yn ferch sy'n diddymu ei hawl i ddewis y gyfradd is ar gyfer gwraig briod neu wraig weddw ran o'r ffordd drwy flwyddyn dreth
- rydych yn berson hunangyflogedig ac mae'ch elw'n is na'r Trothwy Elw Bychan, neu'r oeddech wedi'ch eithrio'n flaenorol rhag talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 2

Mae'n bosibl y byddwch hefyd yn gallu talu ar gyfer cyfnodau pan fuoch dramor.

Ni allwch dalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 3 gwirfoddol:

- os ydych yn wraig briod neu'n wraig weddw a ddewisodd dalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol ar gyfradd is drwy gydol y flwyddyn dreth
- ar gyfer y flwyddyn dreth pan fyddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth, neu ar gyfer unrhyw flwyddyn dreth ar ôl hynny
- os ydych yn hunangyflogedig a bod eich elw'n uwch na'r Trothwy Elw Bychan
- ar gyfer unrhyw wythnos pan fo gennych hawl i gredydau Yswiriant Gwladol

## Diogelu'ch Pensiwn y Wladwriaeth

Mae swm Pensiwn y Wladwriaeth a gewch yn dibynnu ar y canlynol:

- y cyfraniadau Yswiriant Gwladol yr ydych wedi'u talu, neu sy'n cael eu trin fel petai'ch bod wedi'u talu
- y cyfraniadau Yswiriant Gwladol sydd wedi'u credydu i chi, os yw'r rhain yn ffurfio blwyddyn gymwys

Newidiodd y Llywodraeth Pensiwn y Wladwriaeth o 6 Ebrill 2016 ymlaen. Bydd y Pensiwn y Wladwriaeth newydd hwn ar gyfer y canlynol:

- dynion a aned ar neu ar ôl 6 Ebrill 1951
- merched a aned ar neu ar ôl 6 Ebrill 1953

Yn sgil y newidiadau, disodlwyd Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth gan system unigol - Pensiwn newydd y Wladwriaeth. Bydd angen o leiaf 10 mlynedd cymwys arnoch i gael Pensiwn y Wladwriaeth o 6 Ebrill 2016 ymlaen. Caiff cyfraniadau Yswiriant Gwladol a dalwyd cyn 6 Ebrill 2016 eu cydnabod yn y system newydd.

Mae newidiadau'n cael eu gwneud hefyd i oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

Y ffordd fwyaf hwylus i weld faint o Bensiwn y Wladwriaeth y mae'n bosibl y byddwch yn ei gael, ar sail eich cyfraniadau Yswiriant Gwladol hyd yn hyn, yw drwy fynd i www.gov.uk/gwirio-eich-pensiwn-y-wladwriaeth

Bydd hyn yn eich helpu i benderfynu a ydych am dalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 3 gwirfoddol.

## Cael credydau tuag at eich Pensiwn y Wladwriaeth

Cyn i chi ystyried talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 3 gwirfoddol, dylech ystyried a fyddai gennych hawl i gael credydau Yswiriant Gwladol yn lle hynny.

Weithiau, mae'n bosibl na fyddwch yn talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol os yw'r canlynol yn wir:

- rydych yn sâl
- rydych yn ddi-waith
- nid ydych yn gweithio, neu nid ydych yn gweithio llawer o oriau, oherwydd eich bod yn gofalu am rywun, ac rydych wedi gwneud cais am fudd-dal fel rhiant neu ofalwr
- nid ydych yn ennill digon i dalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol

Mewn nifer o achosion mae'n bosib y gall y Llywodraeth roi credydau i chi tuag at eich Pensiwn y Wladwriaeth ar gyfer y cyfnodau hynny. Gall credydau Yswiriant Gwladol helpu i gynnal eich cofnod cyfraniadau Yswiriant Gwladol ar gyfer rhai budd-daliadau nawdd cymdeithasol, ac maent yn helpu i ddiogelu'ch hawl i Bensiwn y Wladwriaeth.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn www.gov.uk/national-insurance-credits

## Penderfynu talu

Cyn i chi benderfynu talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 3 gwirfoddol, dylech gael gwybodaeth am eich hawl i Bensiwn y Wladwriaeth, gan gynnwys nifer y blynyddoedd cymwys sydd gennych hyd yn hyn. Ewch i www.gov.uk/gwirio-eich-pensiwn-y-wladwriaeth

Nid yw cyfraniadau gwirfoddol bob amser yn cynyddu'ch Pensiwn y Wladwriaeth. I weld a fyddech ar eich ennill yn sgil talu cyfraniadau gwirfoddol, cysylltwch â'r Canolfan Pensiwn y Dyfodol:

- os ydych yn byw yn y DU
  - Ffôn: 0800 731 0175
  - Ffôn testun: 0800 731 0176
- os ydych yn byw tu allan i'r DU
  - Ffôn: +44 (0)191 218 3600
  - Ffôn testun: +44 (0)191 218 2051

I weld oriau agor y Canolfan Pensiwn y Dyfodol, ewch i www.gov.uk/future-pension-centre

Rhoddir yr wybodaeth ar Ddatganiad Pensiwn, a bydd yn seiliedig ar y system bensiwn bresennol

## Terfynau amser a chyfraddau uwch ar gyfer talu

Fel arfer, mae'n rhaid i chi dalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 3 gwirfoddol cyn diwedd y chweched flwyddyn dreth yn dilyn y flwyddyn dreth yr ydych yn talu ar ei chyfer, er mwyn i'r cyfraniadau gyfrif tuag at Bensiwn y Wladwriaeth. Os ydych yn talu mwy na 2 flynedd ar ôl diwedd y flwyddyn dreth yr ydych yn talu ar ei chyfer, mae'n bosibl bydd yn rhaid i chi dalu ar gyfradd uwch.

O ganlyniad i newidiadau i'r Pensiwn y Wladwriaeth presennol ar gyfer y rheiny sy'n ymddeol ar ôl 5 Ebrill 2016, rydym wedi ymestyn y terfynau amser ar gyfer talu er mwyn sicrhau bod gennych ddigon o amser i benderfynu a hoffech dalu. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn www.gov.uk/voluntary-national-insurance-contributions/rates

Er mwyn caniatáu ar gyfer oedi posib â gwaith prosesu'r banc (nad yw Cyllid a Thollau EM yn gyfrifol amdano), dylech adael o leiaf 5 diwrnod gwaith y banc i'ch taliad ein cyrraedd. Diwrnodau gwaith y banc yw dydd Llun i ddydd Gwener, ac eithrio gwyliau'r banc.

## Ad-dalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol gwirfoddol

Does dim hawl awtomatig i ad-daliad cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 3 gwirfoddol. Gallwn ond ad-dalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 3 os yw'r canlynol yn wir:

- nid oedd hawl gennych i'w talu
- cawsant eu talu ar gam

## Beth i'w wneud os ydych am dalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol gwirfoddol

Os ydych wedi penderfynu eich bod am dalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol gwirfoddol, darllenwch yr adran 'Sut i dalu'. Llenwch y ffurflen gais, gan gynnwys y datganiad ynglŷn â'r dull talu yr hoffech ei ddefnyddio.
I dalu drwy Ddebyd Uniongyrchol, llenwch y 'Cyfarwyddyd i'ch banc neu gymdeithas adeiladu i dalu drwy Ddebyd Uniongyrchol'.
Cadwch y nodiadau hyn, ac anfonwch dudalennau 3 a 4 yn ôl i:

Cyllid a Thollau EM
Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEM
Tŷ Thedford
Stryd Fawr
PORTHMADOG
LL49 9BF

Gallwch roi gwybod i ni ar-lein am unrhyw newidiadau yn eich amgylchiadau, er enghraifft enw a chyfeiriad.
Ewch i www.gov.uk/national-insurance/change-of-circumstance

## Sut i dalu

**Debyd Uniongyrchol**
Byddwn yn casglu'ch cyfraniadau Yswiriant Gwladol o'ch banc neu gymdeithas adeiladu unwaith y mis. Gall gymryd o leiaf 21 diwrnod i sefydlu Debyd Uniongyrchol gyda'ch banc neu gymdeithas adeiladu. Ysgrifennwn atoch i gadarnhau dyddiad y taliad cyntaf.

Caiff eich taliadau eu gwneud yn fisol, yn ôl-ddyledus. Byddant yn cwmpasu cyfraniadau Yswiriant Gwladol ar gyfer naill ai 4 neu 5 wythnos, yn dibynnu ar nifer y Suliau yn y mis treth blaenorol. Gan ddibynnu ar y dyddiad rydych wedi penderfynu dechrau talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol, gallai'r taliad cyntaf fod yn uwch os yw'n cwmpasu mwy nag un mis. Byddwn yn dal i gasglu taliadau drwy Ddebyd Uniongyrchol o'ch cyfrif ar, neu hyd at 3 diwrnod gwaith ar ôl, yr ail ddydd Gwener ym mhob mis. Dylech sicrhau bod digon o arian yn eich cyfrif.

**Bil Chwarterol**
Os dewiswch dalu bob chwarter, byddwn yn anfon bil atoch bob 13 wythnos, ym misoedd Gorffennaf, Hydref, Ionawr ac Ebrill bob blwyddyn. Gallwch dalu'ch bil yn eich banc ac ni chodir tâl arnoch ar gyfer y trafodiad.

Mae yna drefniadau arbennig ar gyfer pobl sydd dramor neu sy'n mynd dramor. Mae hyn yn dibynnu ar eich amgylchiadau cyn i chi adael y DU, y wlad yr ydych yn mynd iddi a dosbarth y cyfraniad y gallwch ei dalu.

Mae rhagor o wybodaeth am dalu Cyllid a Thollau EM ar gael yn www.gov.uk/pay-voluntary-class-3-national-insurance

## Eich hawliau a'ch ymrwymiadau

Mae 'Eich Siarter' yn egluro'r hyn y gallwch ei ddisgwyl gennym ni a'r hyn y disgwyliwn gennych chi. Mae rhagor o wybodaeth i'w chael yn www.gov.uk/eichsiarter

Dylai'r Warant hon gael ei datgysylltu a'i chadw gan y talwr

**The Direct Debit Guarantee**
**Y Warant Debyd Uniongyrchol**

- This Guarantee is offered by all banks and building societies that accept instructions to pay Direct Debits.
  Cynigir y Warant hon gan bob banc a chymdeithas adeiladu sy'n derbyn cyfarwyddiadau i dalu Debydau Uniongyrchol.
- If there are any changes to the amount, date or frequency of your Direct Debit, HM Revenue and Customs will notify you 10 working days in advance of your account being debited or as otherwise agreed. If you request HM Revenue and Customs to collect a payment, confirmation of the amount and date will be given to you at the time of the request.
  Os oes unrhyw newidiadau i swm, dyddiad neu amlder eich Debyd Uniongyrchol, bydd Cyllid a Thollau EM yn rhoi gwybod i chi 10 diwrnod gwaith cyn i'ch cyfrif cael ei ddebydu neu fel y cytunwyd fel arall. Os byddwch yn gofyn i Gyllid a Thollau EM gasglu taliad, cewch cadarnhad o'r swm a'r dyddiad wrth wneud y cais.
- If an error is made in the payment of your Direct Debit, by HM Revenue and Customs or your bank or building society you are entitled to a full and immediate refund of the amount paid from your bank or building society.
  – If you receive a refund you are not entitled to, you must pay it back when HM Revenue and Customs asks you to.
  Os gwneir camgymeriad wrth dalu'ch Debyd Uniongyrchol, naill ai gan Gyllid a Thollau EM neu'ch banc neu gymdeithas adeiladu, mae gennych hawl i ad-daliad llawn o'r swm a dalwyd, a hynny ar unwaith gan eich banc neu'ch cymdeithas adeiladu.
  – Os ydych yn cael ad-daliad nad oes hawl gennych iddo, mae'n rhaid i chi ei dalu'n ôl pan fydd Cyllid a Thollau EM yn gofyn i chi wneud hynny.
- You can cancel a Direct Debit at any time by simply contacting your bank or building society. Written confirmation may be required. Please also notify us.
  Gallwch ganslo Debyd Uniongyrchol ar unrhyw adeg drwy gysylltu â'ch banc neu gymdeithas adeiladu. Efallai y bydd angen cadarnhad ysgrifenedig. Dylech roi gwybod i ninnau hefyd.

Cyllid & Thollau EM | HM Revenue & Customs

# Application to pay voluntary National Insurance contributions
# Cais i dalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol gwirfoddol

Please use capital letters and write clearly using a black ballpoint pen.

**Instruction to your bank or building society to pay by Direct Debit** – at 'Reference', please enter your National Insurance number.

Send us pages 3 and 4. Keep the notes on pages 1 and 2. When we receive your reply we'll update your National Insurance account.

Defnyddiwch briflythrennau ac ysgrifennwch yn glir â beiro du.

**Cyfarwyddyd i'ch banc neu gymdeithas adeiladu i dalu drwy Ddebyd Uniongyrchol** – yn 'Cyfeirnod', nodwch eich rhif Yswiriant Gwladol.

Anfonwch dudalennau 3 a 4 atom. Cadwch y nodiadau ar dudalennau 1 a 2. Pan fydd eich ateb yn dod i law, byddwn yn diweddaru eich cyfrif Yswiriant Gwladol.

## Your details/Eich manylion

1 **Surname/Cyfenw**

2 **First name(s)/Enw(au) cyntaf**

3 **Title** – *Mr, Mrs, Miss, Ms or other*
**Teitl** – *Mr, Mrs, Miss, Ms neu arall*

4 **National Insurance number/Rhif Yswiriant Gwladol**

5 **Date of birth** *DD MM YYYY*/**Dyddiad geni** *DD MM BBBB*

6 **Address/Cyfeiriad**

Post code/Cod post

7 **Telephone numbers/Rhifau ffôn**

Home/Cartref

Mobile/Symudol

8 **Marital or civil partnership status**
**Statws priodasol neu bartneriaeth sifil**

9 **From what date do you wish to start paying voluntary National Insurance contributions?**
See 'How to pay' on page 2 for more information about payments
*DD MM YYYY*
**O ba ddyddiad hoffech chi ddechrau talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol (CYG) gwirfoddol?**
Gweler 'Sut i dalu' ar dudalen 2 am fwy o wybodaeth am daliadau
*DD MM BBBB*

*Do not detach/Peidiwch â datgysylltu*

## Instruction to your bank or building society to pay by Direct Debit
## Cyfarwyddyd i'ch banc neu gymdeithas adeiladu i dalu drwy Ddebyd Uniongyrchol

Cyllid & Thollau EM | HM Revenue & Customs

Please fill in this form in capital letters using a black ballpoint pen and send it to National Insurance Contributions and Employer Office, HM Revenue and Customs, BX9 1AN.
Llenwch y ffurflen hon mewn priflythrennau drwy ddefnyddio beiro du, a'i hanfon i:
Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEM, Tŷ Thedford, Stryd Fawr, Porthmadog, LL49 9BF.

DIRECT Debit

**Name(s) of account holder(s)/Enw(au) deiliad/deiliaid y cyfrif**

**Bank/building society account number**
**Rhif y cyfrif banc/cymdeithas adeiladu**

**Branch sort code/Cod didoli'r gangen**

– –

**Name and full postal address of your bank or building society**
**Enw a chyfeiriad post llawn eich banc neu gymdeithas adeiladu**

To: The Manager
I: Y Rheolwr

Bank/building society
Banc/Cymdeithas Adeiladu

Address/Cyfeiriad

Postcode/Cod post

**Service user number/Rhif defnyddiwr y gwasanaeth**

| 9 | 9 | 1 | 1 | 3 | 3 |
|---|---|---|---|---|---|

**Reference/Cyfeirnod**

### Instruction to your bank or building society
### Cyfarwyddyd i'ch banc neu gymdeithas adeiladu

Please pay HM Revenue and Customs Direct Debits from the account detailed in this instruction, subject to the safeguards assured by The Direct Debit Guarantee. I understand that this instruction may remain with HM Revenue and Customs and, if so, details will be passed electronically to my bank/building society.

Talwch Ddebydau Uniongyrchol Cyllid a Thollau EM o'r cyfrif a nodir yn y cyfarwyddyd hwn, yn amodol ar y sicrwydd diogelwch a sicrhawyd gan 'Y Warant Debyd Uniongyrchol'. Deallaf y gall y cyfarwyddyd hwn aros gyda Chyllid a Thollau EM ac, os felly, caiff manylion eu trosglwyddo drwy ddull electronig i'm banc/cymdeithas adeiladu.

Signature/Llofnod

Date *DD MM YYYY*/Dyddiad *DD MM BBBB*

*Banks and building societies may not accept Direct Debit instructions for some types of account*
*Mae'n bosibl na fydd banciau a chymdeithasau adeiladu'n derbyn cyfarwyddiadau Debyd Uniongyrchol ar gyfer rhai mathau o gyfrifon*

**10** **Tell us about the work you do or have done before the date you wish to start paying voluntary National Insurance contributions.**
Please tick the appropriate box(es)?
**Rhowch wybod i ni am y gwaith yr ydych yn ei wneud, neu wedi ei wneud cyn y dyddiad yr hoffech ddechrau talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol gwirfoddol.**
Ticiwch y blwch/blychau priodol.

**Employed/Yn gyflogedig** ☐
from *DD MM YYYY*/o *DD MM BBBB*
to *DD MM YYYY*/i *DD MM BBBB*

**Self-employed/Hunangyflogedig** ☐
from *DD MM YYYY*/o *DD MM BBBB*
to *DD MM YYYY*/i *DD MM BBBB*

**Unemployed/Yn ddi-waith** ☐
from *DD MM YYYY*/o *DD MM BBBB*
to *DD MM YYYY*/i *DD MM BBBB*

**Non-employed/Ddim yn gyflogedig** ☐
from *DD MM YYYY*/o *DD MM BBBB*
to *DD MM YYYY*/i *DD MM BBBB*

### How to pay/Sut i dalu

I wish to pay by Direct Debit
Hoffwn dalu drwy Ddebyd Uniongyrchol ☐

I wish to pay by quarterly bill
Hoffwn dalu drwy fil chwarterol ☐ Go to declaration
Ewch i'r Datganiad

Please fill in the Direct Debit instruction on page 3. Banks and building societies may not accept Direct Debit instructions for some types of account.
Llenwch y cyfarwyddyd Debyd Uniongyrchol ar dudalen 3, Mae'n bosibl na fydd banciau a chymdeithasau adeiladu'n derbyn cyfarwyddiadau Debyd Uniongyrchol ar gyfer rhai mathau o gyfrif.

### Declaration/Datganiad

This is my application to pay voluntary National Insurance contributions. I would like to pay by the method selected above. I have read and understand the following:
Dyma fy nghais i dalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol gwirfoddol. Hoffwn dalu gan ddefnyddio'r dull a ddewiswyd uchod. Rwyf wedi darllen a deall y canlynol:

- voluntary National Insurance contributions count towards State Pension
  mae cyfraniadau Yswiriant Gwladol gwirfoddol yn cyfrif tuag at Bensiwn y Wladwriaeth
- I am under no legal obligation to make voluntary National Insurance contributions
  nid wyf o dan unrhyw ymrwymiad cyfreithiol i wneud cyfraniadau Yswiriant Gwladol gwirfoddol
- if I pay less than 52 weeks of voluntary contributions in any one tax year, you may automatically stop sending me quarterly bills
  os byddaf yn talu llai na 52 wythnos o gyfraniadau gwirfoddol mewn unrhyw flwyddyn dreth, gallwch roi'r gorau i anfon biliau chwarterol ataf yn awtomatig
- If I do not pay 2 quarterly bills in succession you may automatically stop sending me quarterly bills
  os na fyddaf yn talu 2 fil chwarterol yn olynol, gallwch roi'r gorau i anfon biliau chwarterol ataf yn awtomatig

Tick this box if you receive or have received Child Benefit, otherwise leave blank.
Ticiwch y blwch hwn os ydych yn cael, neu wedi cael, Budd-dal Plant. Fel arall, gadewch y blwch yn wag. ☐

Signature(s)/Llofnod(ion)

Date *DD MM YYYY*/Dyddiad *DD MM BBBB*

## What to do now

Detach your completed form on pages 3 and 4 and send it to:

National Insurance Contributions and Employer Office
HM Revenue and Customs
BX9 1AN

## Yr hyn i'w wneud nawr

Datgysylltwch eich ffurflen wedi'i llenwi ar dudalennau 3 a 4 a'i hanfon i:

Cyllid a Thollau EM
Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEM
Tŷ Thedford
Stryd Fawr
PORTHMADOG
LL49 9BF